CHWALU CHWEDLAU

BARCLAYS | LifeSkills

National Numeracy
NUMBER CONFIDENCE WEEK

Dyma rai pethau y gallech chi glywed pobl yn eu dweud am fathemateg, ond a ydyn nhw i gyd yn wir?

Siaradwch â'ch cyd-ddisgyblion
Trafodwch bob un o'r datganiadau isod a phenderfynwch a ydych chi'n meddwl bod pob un yn gywir neu'n anghywir. Mae'r atebion ar y gwaelod.

1. "Mae rhai pobl yn cael eu geni'n dda am fathemateg."
2. "Does dim un o'm ffrindiau yn ei chael hi'n anodd gwneud mathemateg fel fi."
3. "Mae pawb yn defnyddio mathemateg bob dydd."
4. "Does dim angen mathemateg arnoch chi os oes gennych chi gyfrifiannell neu ffôn."
5. "Mae dynion yn well am fathemateg na menywod."
6. "Gall unrhyw un wella mewn mathemateg wrth ymarfer."

Beth ddysgoch chi?
Pa ddatganiad a'ch synnodd fwyaf? Pam?
A yw'r gweithgaredd hwn wedi newid sut rydych chi'n meddwl am fathemateg?

Atebion

1. **ANGHYWIR.** Sgil yw mathemateg, nid rhywbeth rydych chi'n cael eich geni'n gallu ei gwneud yn dda. Gall pawb wella wrth ymarfer.

2. **ANGHYWIR.** Mae llawer o bobl yn cael mathemateg yn anodd, hyd yn oed os nad ydyn nhw'n dweud hynny. Ond gallwn ni i gyd wella wrth ymarfer.

3. **CYWIR.** Mae pob un ohonom yn defnyddio mathemateg bob dydd: siopa, cogino, teithio, amser – mathemateg yw'r cyfan!

4. **ANGHYWIR.** Gall dyfeisiau ein helpu i gyfrifo pethau, ond mae dal angen i chi wybod beth i'w deipio i mewn, a gallu teimlo a yw'r ateb yn edrych yn iawn ai peidio.

5. **ANGHYWIR.** Sgil rydych chi'n ei ddysgu yw mathemateg – does ganddi ddim i'w wneud â'ch rhyw na'ch rhywedd, ac mae pawb yn gallu gwella ei sgiliau mathemateg.

6. **CYWIR.** Mae pawb yn gwella ar gyflymder gwahanol ac mae angen cymorth gwahanol ar bawb, ac mae hynny'n iawn.